GORILLA

.

Gorilla yw cyfleuster Ôl-gynhyrchu mwyaf Cymru ac mae gennym swyddfeydd ym Mae Caerdydd, yng nghanol dinas Caerdydd ac ym Mryste. Rydym yn chwilio am nifer o bobl i ymuno â'n tîm.

ÔL-GYNHYRCHYDD

Mae Gorilla Group yn awyddus i recriwtio Ôl-gynhyrchydd profiadol i ymuno â'n tîm ym Mryste. Rydym am recriwtio rhywun sydd ag o leiaf 2 flynedd o brofiad o weithio yn y diwydiant ac sydd wedi hen arfer â gweithio mewn amgylchedd hynod greadigol sy'n symud yn gyflym gyda'r hyblygrwydd i addasu'n llwyddiannus i sefyllfaoedd sy'n newid yn gyson. Bydd gennych wybodaeth drylwyr o lifoedd gwaith di-dâp a chyflwyno sylfaen ffeiliau a rheoli cynyrchiadau aml-swît.

Cyfrifoldebau:

- Rheoli a chyflwyno prosiectau ar draws pob genre teledu, gan arwain cleientiaid trwy'r broses ôl-gynhyrchu, o sefydlu'r prosiect i'r cyfleu.
- Gweithio'n agos gyda gweddill y tîm, gan greu a rheoli amserlenni sy'n newid yn barhaus er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau.
- Rheoli prosiectau o bell, pan fydd angen, gan gyfathrebu yn y modd mwyaf effeithlon er mwyn sicrhau fod gan y cleientiaid yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a therfynau amser.
- Ysgogi cyfarfodydd gyda chleientiaid ac adrannau eraill er mwyn datblygu llifoedd gwaith ac amserlenni sydd weithiau'n gymhleth.
- Cyfathrebu'n glir a chyson â staff, gweithwyr llawrydd, cysylltiadau allweddol a chleientiaid er mwyn cadw prosiectau o fewn y gyllideb ac ar amser, gan greu adroddiadau costau ac awgrymu newidiadau llif gwaith i ddod â chyllidebau yn ôl ar y trywydd iawn lle bo angen.
- Creu adroddiadau costau a sicrhau fod anfonebu yn cael ei wneud yn brydlon ac yn fanwl gywir.
- Yn ogystal â chynnal perthnasoedd cryf, proffesiynol gyda'ch cleientiaid, byddwch yn ceisio adeiladu perthnasoedd newydd a rhwydweithio i fynd ati i geisio cydweithredu yn y dyfodol.
- Darparu gwasanaeth o'r lefel uchaf bob amser.

Gwnewch gais gan gynnwys CV a llythyr eglurhaol yn nodi lefel eich profiad a'ch disgwyliadau cyflog i jobs@gorillagroup.tv

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 06.01.2023

Lleoliad: Bryste

Mae Gorilla TV Ltd yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu pobl o safbwyntiau amrywiol ac o gefndiroedd amrywiol. Rydym wedi ymrwymo i adlewyrchu a chynrychioli amrywiaeth y DU yn ein holl weithgareddau.

Mae eich Data Personol yn bwysig iawn i Gorilla a bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei chasglu a'i phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Hysbysiad Preifatrwydd Gorilla (https://www.gorillagroup.tv/en/privacy/) Byddwn yn cadw eich CV am 6 mis oni bai eich bod yn gofyn i ni ei ddileu cyn hynny.